

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol CCAUC

Mawrth 2020 - Ebrill 2024



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

## **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) Datganiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

Mae CCAUC yn gorff a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae ein cyfrifoldebau mewn perthynas â chydaddoldeb ac amrywiaeth yn cynnwys ein rôl fel cyflogwr, yn ogystal â'n gwaith â darparwyr addysg uwch, fel y bônt yn berthnasol i'w staff a'u myfyrwyr. Rydym yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth cydraddoldeb, ond nid CCAUC yw rheoleiddiwr cydraddoldeb ac amrywiaeth addysg uwch (AU) yng Nghymru. [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru](#) (EHRC Cymru) yw rheoleiddiwr cydraddoldeb Llywodraeth Cymru. Mae gennym bwerau rheoleiddio mewn meysydd eraill, gan gynnwys pwerau o dan [Ddeddf Addysg Uwch \(Cymru\) 2015](#), ac rydym yn ystyried ein dyletswyddau cydraddoldeb wrth weinyddu ein pwerau rheoleiddio.

Nid oes gennym bwerau i osod amcanion cydraddoldeb ar gyfer darparwyr addysg uwch (AU) unigol, ond rydym yn ystyried sut mae eu hamcanion yn cyfrannu at wella cydraddoldeb ac amrywiaeth addysg uwch yng Nghymru, a'r modd y mae eu hamcanion yn ein galluogi i gyflawni ein blaenoriaethau cydraddoldeb ein hunain ar gyfer AU. Mae gennym ymrwymiad hirdymor i hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo arferion effeithiol a chynhwysol mewn addysg uwch.

Bydd gwella cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn addysg uwch a sicrhau ymagweddau cynhwysol yn esgor ar lawer o fanteision. Mae'r manteision hyn yn mynd y tu hwnt i addysg uwch, a hyd yn oed CCAUC fel sefydliad, am eu bod yn cyfrannu at les cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru.

Mae gan ddarparwyr AU boblogaethau amrywiol o staff, ymgeiswyr a myfyrwyr, mewn amrywiaeth o gymunedau a lleoliadau, sy'n gweithio yn Gymraeg, yn Saesneg ac mewn ieithoedd eraill. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cydweithio â hwy, ac yn cynnwys eu staff a'u myfyrwyr, i sicrhau cyfle cyfartal. Rydym yn hyrwyddo ymagweddau ataliol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, ac yn cynghori ac yn herio, gyda thystiolaeth, er mwyn ymdrin ag achosion o anghydaddoldeb sydd wedi ymwreiddio.

Fel cyflogwr, rydym yn ymwybodol o broffil cydraddoldeb ac amrywiaeth CCAUC ac yn ceisio gwella'r proffil hwnnw. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn (y Cynllun) yn gyson â [gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd ein Strategaeth Gorfforaethol](#). Mae'r Cynllun, a'r cynllun cyflawni sy'n ei danategu ac a gyhoeddir gennym ar wahân, yn nodi sut y byddwn yn symud ein gwaith ymlaen yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.

Rydym yn cydnabod manteision ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl wrth ddatblygu a gweithredu ein Cynllun. Dogfen sy'n esblygu yw'r Cynllun hwn, a byddwn yn ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

**David Blaney**  
**Prif Weithredwr**

## **Gweledigaeth strategol CCAUC:**

### **Dyma weledigaeth strategol CCAUC, fel y nodir yn ein Strategaeth Gorfforaethol:**

Addysg uwch gynaliadwy, hygyrch a rhagorol yn rhyngwladol yng Nghymru

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) CCAUC yn cyfrannu at wireddu ein gweledigaeth. Mae'r pedwar amcan cydraddoldeb ac amrywiaeth lefel uchel yn gyson â themâu ein hamcanion corfforaethol<sup>1</sup>.

Dyma bedwar amcan lefel uchel ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol:

#### **Rydym yn cyllido:**

Sicrhau bod addysg uwch yng Nghymru yn gynaliadwy ac yn hygyrch i bawb a allai elwa arni ac/neu weithio yn y maes.

#### **Rydym yn rheoleiddio:**

Sicrhau cyfle cyfartal a thegwch o ran deilliannau mewn addysg uwch.

#### **Rydym yn cydweithio:**

Gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo a dylanwadu ar gydraddoldeb ac amrywiaeth mewn addysg uwch.

#### **Rydym yn gweithredu'n effeithiol:**

Sicrhau bod cydraddoldeb yn greiddiol i bopeth a wnawn fel sefydliad.

Wrth ddatblygu'r cynllun hwn rydym wedi ystyried nodau ac amcanion byrdymor a hirdymor Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddeddfu dyletswydd economaidd-gymdeithasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Er nad yw CCAUC na darparwyr AU yn gorfod cyflawni'r ddyletswydd hon, byddwn yn ystyried ffactorau economaidd-gymdeithasol yn ein dulliau o weithio. Ar ben hynny, rydym wedi:

- ystyried goblygiadau [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#), nodau llesiant, y dulliau gweithio a'r egwyddor datblygu cynaliadwy;
- cyhoeddi [Datganiad Llesiant CCAUC](#) yn sail ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn a'i weithrediad, a pharhau i'w adolygu; a
- chydweithio â Chyrff Cyhoeddus eraill yng Nghymru<sup>2</sup> i sicrhau ymagwedd integredig a chydgyssylltiedig at herio ac ymdrin â chydaddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

---

<sup>1</sup>Wrth ddilyn ein gweledigaeth strategol gorfforaethol, ein cenhadaeth yw: cyllido addysg uwch yng Nghymru; rheoleiddio darparwyr addysg uwch yng Nghymru; dylanwadu ar addysg uwch gyda chynghor sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwaith partneriaeth cryf; gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr; a gweithredu'n effeithiol fel sefydliad.

<sup>2</sup>Partneriaeth Cydraddoldeb Corff Cyhoeddus Cymru: Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, CCAUC, Comisiynydd y Gymraeg, Gyrfa Cymru, Awdurdod Refeniw Cymru, Addysg a Gwellia Iechyd Cymru (AGIC), Chwaraeon Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

- Ymgynghori ar ein drafft o CCS 2020-24 - gweler [cylchlythyr CCAUC W20/02HE](#).
- ystyried cydraddoldeb yr ymdriniaeth â'r Gymraeg a Saesneg wrth gynnal ein busnes cyhoeddus yng Nghymru, a'n rôl wrth hwyluso amgylchedd gwaith dwyieithog i staff wrth ddatblygu'r cynllun hwn.
- nodi ein blaenoriaethau ar gyfer gweithredu o dan bob un o bedwar amcan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a nodir uchod, er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb ac amrwiaeth wedi'u hymwreiddio ym mhopeth a wnawn.

### **Amcan 1:**

**Rydym yn cyllido: sicrhau bod addysg uwch yng Nghymru yn gynaliadwy ac yn hygyrch i bawb a allai elwa arni ac/neu weithio yn y maes.**

### **Blaenoriaethau byrdymor**

Byddwn yn:

- Adolygu ein methodoleg cyllido, gan gynnwys cyllid rhan-amser, gan ystyried anghenion myfyrwyr â nodweddion gwarchoddedig a'r rhai sy'n derbyn lwfansau myfyrwyr anabl. *(erbyn 2021)*
- Monitro effaith ein dyraniadau cyllid a'r defnydd ohonynt, gan gynnwys drwy brosesau asesu effaith ffurfiol. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Cyllido'r Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach a'i gefnogaeth ar gyfer grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli mewn AU, fel y nodir yng [nghanllawiau Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach CCAUC](#). *(cyfnod strategaeth YE gyfredol 2018/19 hyd 2021/22)*
- Rheoli iechyd a lles, gan gynnwys prosiectau iechyd meddwl a ariennir i wella profiad myfyrwyr a staff. *(erbyn 2022)*
- Cyllido a rheoli [GO Wales: Rhaglen Cyflawni drwy Brofiad Gwaith](#) i gefnogi cyfleoedd profiad gwaith a ddarperir i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli mewn AU, gan gynnwys y rhai hynny â nodweddion gwarchoddedig fel y'u diffinnir yng nghynllun busnes GO Wales. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Cyllido prentisiaethau lefel uwch a monitro trefniadau recriwtio, cyfraddau cadw a llwyddiant grwpiau wedi'u tangynrychioli ar radd-brentisiaethau. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Cynorthwyo sefydliadau i gyllido Bwrsariaethau Meistr i Ôl-raddedigion ar Gyrsiau a Addysgir sydd yn 60 oed neu'n hŷn. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*

## Amcan 2:

Rydym yn rheoleiddio: sicrhau cyfle cyfartal a thegwch o ran deilliannau mewn addysg uwch.

### Blaenoriaethau byrdymor

Byddwn yn:

- Cymeradwyo cynlluniau mynediad a ffioedd a gyflwynir inni, neu beidio, er mwyn sicrhau cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Gwerthuso gweithgareddau a gwasanaethau'r cynllun mynediad a ffioedd er mwyn nodi a hyrwyddo'r dulliau mwyaf effeithiol o sicrhau cyfle cyfartal a thegwch o ran deilliannau. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Ymyrryd i sicrhau cydymffurfiaeth, lle bo'n briodol, yn unol â'n dyletswyddau statudol ar gyfer rheoleiddio, gan gynnwys o dan ddeddfwriaeth [Y Ddyletswydd Atal](#) a [Deddf Addysg Uwch \(Cymru\) 2015](#). *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Monitro datganiadau budd y cyhoedd y darparwyr AU yn gysylltiedig ag ymrwymïadau cyfle cyfartal. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Defnyddio ein prosesau sicrwydd blynyddol <sup>3</sup> i wella perfformiad o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys drwy:
  - Adolygiad Risg Sefydliadol;
  - Ymweliadau Adolygu Sicrwydd Sefydliadol; a Ffurflenni Sicrwydd Blynyddol. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Adolygu cynlluniau cydraddoldeb strategol darparwyr AU, adroddiadau cydraddoldeb blynyddol a data cydraddoldeb cysylltiedig yn sail ar gyfer ein prosesau asesu risg a sicrwydd, ein hamcanion cydraddoldeb strategol ein hunain, ac i herio perfformiad yn y maes hwn. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*

---

<sup>3</sup> Bydd pob un o'r prosesau hyn yn ceisio sicrwydd ynghylch agweddau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, fel sicrhau ystyriaeth briodol o amrywiaeth y Corff Llywodraethu, monitro perfformiad yn erbyn targedau ehangu mynediad a deilliannau dysgwyr. Os ceir diffygion yn y meysydd hyn gallai CCAUC ei gwneud hi'n ofynnol cymryd camau unioni.

### Amcan 3:

Rydym yn cydweithio: gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo a dylanwadu ar gydraddoldeb ac amrywiaeth mewn addysg uwch.

### Blaenoriaethau byrdymor

Byddwn yn

- Gweithio gyda darparwyr AU i sicrhau y gweithredir i gau bylchau cyflog<sup>4</sup>. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Herio darparwyr AU i wneud cynnydd o ran lleihau bylchau rhwng cyrhaeddiad myfyrwyr<sup>5</sup> a gwella cyrhaeddiad gwahaniaethol<sup>6</sup>. *(erbyn 2021)*
- Gweithio gyda darparwyr AU ar eu hymateb i ymchwil a chyhoeddiadau perthnasol, gan gynnwys rhai gan [Llywodraeth Cymru](#), y [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#), [Prifysgolion y DU](#), [Ymlaen AU](#) ac eraill. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu [Datganiad Polisi CCAUC ar Iechyd a Lles mewn AU](#), gan gynnwys datblygiad cynlluniau gweithredu tanategol wedi'u cydgyhyrchu ar gyfer y staff a'r myfyrwyr. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Hyrwyddo a rhannu arfer effeithiol mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth i staff a myfyrwyr mewn addysg uwch. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Hyrwyddo gwerthoedd y [Concordat Datblygu Ymchwilwyr](#), gan annog prifysgolion Cymru i lofnodi'r Concordat, a chreu cynlluniau gweithredu a fydd yn ymwreiddio egwyddorion gyrfaoedd a gefnogir ar draws y sector. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Adolygu strategaethau iechyd a lles a monitro cynnydd. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Archwilio a chyhoeddi canllawiau ac ymarfer effeithiol ar gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches mewn addysg uwch, gan gynnwys y modd y mae hyn yn berthnasol i staff a myfyrwyr AU. *(erbyn 2020)*
- Cyhoeddi canllawiau ar astudiaethau achos arfer da wrth ymdrin â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Prifysgolion y DU, Ymlaen AU a phartneriaid eraill i gyfrannu at eu strategaethau a'u cynlluniau a datblygu ein hymrwymiaidau

4 [A yw Cymru'n Decach 2018](#), t132

5 [A yw Cymru'n Decach 2018](#), t8

6 Ar draws nodweddion gwarchoddedig ac ardaloedd economaidd-gymdeithasol

tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys ymdrin â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*

- Monitro a herio darparwyr AU ynghylch cydraddoldeb o ran rhywedd a chyfranogiad fesul rhyw mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM) a phynciau eraill, lle gwyddys bod anghydraddoldeb yn bodoli rhwng y rhywiau<sup>7</sup>. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Monitro perfformiad [Athena SWAN](#) y darparwyr AU. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i adolygu a gweithredu fersiwn ddiwygiedig o [Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus](#) (PSED). *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Herio a chefnogi darparwyr AU o ran amrywiaeth eu corff llywodraethu. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Monitro gweithrediad [Codau Ymarfer y FfRHY](#) er mwyn sicrhau tegwch a chynhwysiant wrth ddatblygu cyflwyniadau'r FfRHY. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Monitro cyflawniad darparwyr AU mewn dyfarniadau a siarteri sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb yn y DU.

---

<sup>7</sup> Data tueddiadau HESA

#### **Amcan 4:**

**Rydym yn gweithredu'n effeithiol: sicrhau bod cydraddoldeb yn greiddiol i bopeth a wnawn fel sefydliad.**

Wrth ddatblygu Amcan 4, mae CCAUC wedi cydweithio â Phartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru<sup>8</sup> i sefydlu cyd-flaenoriaethau sy'n gyson â nodau hirdymor drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Yn ogystal â hynny, ceir amcanion sy'n ymwneud yn benodol â CCAUC.

#### **Blaenoriaethau byrdymor**

Byddwn yn:

- Sicrhau bod CCAUC yn cydymffurfio'n llwyr â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Hyrwyddo gofynion sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn llythyr cylch gwaith CCAUC gan gynnwys iechyd a llesiant ac iechyd meddwl. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Adolygu ein Datganiad Llesiant a'n hamcanion. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Cyfrannu at ddatblygiad y [Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil](#), (CADY), gan gynnwys y modd y mae'n berthnasol i gydraddoldeb ac amrywiaeth. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Datblygu cynllun gweithredu CCAUC i ymwreiddio egwyddorion craidd perthnasol y [Concordat Datblygu Ymchwilwyr](#), gan gynnwys ymgysylltu cynyddol ag ymchwilwyr yn gynnar yn eu gyrfa. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Ymateb yn effeithiol i argymhellion sy'n gysylltiedig â CCAUC mewn adolygiadau perthnasol, gan gynnwys adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: [Tackling Racial Harassment: Universities Challenged](#). *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Sicrhau bod CCAUC yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion hygyrchedd gwefannau ar gyfer cyrff y sector cyhoeddus *(erbyn mis Medi 2020)*.

**Mae CCAUC yn ymrwmo i flaenoriaethau Cynllun Cydraddoldeb Strategol Partneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru, fel y nodir isod:**

- Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu - byddwn yn alinio ein hadroddiadau data cyflogaeth ein hunain i gyd-fynd ag adroddiadau Llywodraeth Cymru, o ran fformat a dyddiadau adrodd, ac yn rhoi tystiolaeth o'r modd yr ydym

<sup>8</sup> Aelodaeth Partneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru: Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, CCAUC, Comisiynydd y Gymraeg, Gyrfa Cymru, Awdurdod Refeniw Cymru, Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AGIC), Chwaraeon Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.



yn ymgysylltu â grwpiau lleiafrifol a'r rhai sy'n byw mewn tloedi i gael swydd gyda ni. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*

- Gweithio tuag at ddileu bylchau cyflog, sicrhau data cywir ar draws y sector cyhoeddus sy'n galluogi dadansoddi (ar draws nodweddion gwarchoddedig) \* a chyhoeddi cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau cyflog a nodwyd. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Arddangos a rhoi tystiolaeth o ymgysylltu a chydgynhyrchu ein strategaethau, polisiau, newidiadau i wasanaethau a phenderfyniadau. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*
- Sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i ymwreiddio i'r broses gaffael / comisiynu. *(drwy gydol cyfnod y strategaeth)*

**Wrth ddatblygu ein deilliannau byrdymor, cerrig milltir tymor canolig ac uchelgeisiau hirdymor rydym wedi cydweithio â Phartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru<sup>9</sup> i sefydlu cyd-flaenoriaethau sy'n gyson â nodau hirdymor Llywodraeth Cymru, fel y'u nodwyd yn ei drafft o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.**

### **Erbyn diwedd cyfnod Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24**

*Drwy ein prosesau, gan gynnwys gweithio gyda darparwyr AU, byddwn yn:*

- ✓ cydymffurfio'n llwyr â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fel sefydliad;
- ✓ herio sefydliadau addysg uwch i gydymffurfio'n llwyr â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus;
- ✓ sicrhau bod egwyddor, [nodau a dulliau gweithio](#) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail ar gyfer datblygu a gweithredu polisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- ✓ sicrhau bod y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (pan gaiff ei sefydlu) yn amddiffyn ac yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn addysg ôl 16;
- ✓ cyflawni ein blaenoriaethau byrdymor ac adrodd arnynt yn flynyddol;
- ✓ asesu ein cynnydd a'n perfformiad yn rheolaidd;
- ✓ sicrhau bod polisiau'n cael eu gwella drwy asesiadau effaith effeithiol;
- ✓ sicrhau bod ein prosesau'n deg a chyfartal, gan gynnwys prosesau caffael;
- ✓ cynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth yn amlwg mewn prosesau rheoleiddiol, yn unol â'n dyletswyddau statudol;
- ✓ dangos ein cyfraniad at flaenoriaethau byrdymor Partneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru;
- ✓ cydweithredu'n fwy effeithiol ac ar raddfa ehangach;
- ✓ ehangu cyfleoedd i ymgysylltu mewn modd cynhwysol;
- ✓ rhannu arfer er mwyn gwella perfformiad.

*Ar gyfer poblogaethau o staff a myfyrwyr â nodweddion gwarchoddedig, byddwn yn gweithio o fewn ein sefydliad a chyda darparwyr AU i:*

- ✓ weithio tuag at gynyddu amrywiaeth staff a'r poblogaethau o fyfyrwyr;
- ✓ hyrwyddo cyfle cyfartal a thegwch o ran deilliannau;
- ✓ cynyddu amrywiaeth ar gyrff llywodraethu;
- ✓ mynd i'r afael â bylchau rhwng cyflogau ac mewn cyrhaeddiad;
- ✓ herio rhwystrau i fynediad teg, profiadau cadarnhaol i fyfyrwyr a thegwch o ran deilliannau;
- ✓ herio arferion cyflogaeth sy'n annheg i bobl â nodweddion gwarchoddedig;
- ✓ hyrwyddo diwylliannau a chymunedau cynhwysol sy'n rhydd rhag camdriniaeth sy'n seiliedig ar hunaniaeth;
- ✓ cefnogi iechyd a llesiant y staff a'r myfyrwyr, gan gynnwys iechyd meddwl.

*Ar sail cudd-wybodaeth, byddwn yn:*

- ✓ alinio ein hadroddiadau ar ddata cydraddoldeb â phrotocolau adrodd cenedlaethol priodol;
- ✓ ymestyn y sylfaen dystiolaeth cydraddoldeb;
- ✓ gwella ein defnydd o ddata cydraddoldeb;

<sup>9</sup>Aelodaeth Partneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru: Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, CCAUC, Comisiynydd y Gymraeg, Gyrfa Cymru, Awdurdod Refeniw Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AGIC), Chwaraeon Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

- ✓ gwerthuso cynnydd yn erbyn cynlluniau cydraddoldeb strategol ac adroddiadau blynyddol darparwyr AU;
- ✓ herio cyflymder cynnydd a pherfformiad.

**Mae ein cerrig milltir tymor canolig yn sail ar gyfer asesu cynnydd tuag at ein deilliannau hirdymor. Er mwyn gwneud cynnydd pellach:**

*Drwy ein prosesau, byddwn yn:*

- ✓ modelu arfer da wrth gefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth fel sefydliad a'r sector AU;
- ✓ sicrhau bod egwyddor, nodau a dulliau gweithio Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail ar gyfer datblygu a gweithredu polisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- ✓ sicrhau bod y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn amddiffyn ac yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn addysg ôl 16;
- ✓ gwerthuso cynnydd yn erbyn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol;
- ✓ cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2025-2029 yn seiliedig ar gynnydd yn erbyn amcanion;
- ✓ pennu blaenoriaethau byrdymor;
- ✓ rhoi tystiolaeth o'n cynnydd a'n perfformiad;
- ✓ sicrhau bod prosesau asesu effaith yn cynnig dull cadarn o graffu ar bolisi;
- ✓ sicrhau bod prosesau'n cael eu gweithredu mewn modd teg a chyfartal, gan gynnwys prosesau caffael;
- ✓ sicrhau bod prosesau rheoleiddio yn seiliedig ar ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth, fel bo'n briodol;
- ✓ dangos ein cyfraniad at flaenoriaethau hirdymor Partneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru;
- ✓ rhannu arferion er mwyn gwella perfformiad

*Ar gyfer poblogaethau o staff a myfyrwyr â nodweddion gwarchoddedig, byddwn yn gweithio o fewn ein sefydliad a chyda darparwyr AU i:*

- ✓ gynyddu amrywiaeth y poblogaethau o staff a myfyrwyr;
- ✓ hyrwyddo cyfle cyfartal a thegwch o ran deilliannau;
- ✓ ymdrin ag amrywiaeth cyrff llywodraethu ar draws nodweddion gwarchoddedig;
- ✓ herio bylchau rhwng cyflogau ac mewn cyrhaeddiad;
- ✓ herio rhwystrau i fynediad teg, profiadau cadarnhaol i fyfyrwyr a thegwch o ran deilliannau;
- ✓ herio arferion cyflogaeth sy'n annheg i bobl â nodweddion gwarchoddedig;
- ✓ hyrwyddo diwylliannau a chymunedau cynhwysol sy'n rhydd rhag camdriniaeth sy'n seiliedig ar hunaniaeth;
- ✓ cefnogi iechyd a llesiant y staff a'r myfyrwyr, gan gynnwys iechyd meddwl.

*Ar sail cudd-wybodaeth, byddwn yn:*

- ✓ Cryfhau ac ymestyn monitro gyda data gwell a llai o fylchau;
- ✓ Defnyddio tystiolaeth well i herio cynnydd a pherfformiad anfoddhaol;
- ✓ Amlygu arferion effeithiol wrth gefnogi staff a myfyrwyr â nodweddion gwarchoddedig;

**Canlyniad ein blaenoriaethau byrdymor a'n cerrig milltir tymor canolig yw ein huchelgeisiau hirdymor (y tu hwnt i 2035). Mae ein huchelgeisiau'n gyson ag uchelgeisiau hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru, fel y'u nodir yn ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24<sup>10</sup>, ac maent yn cyfrannu at:**

- ✓ wireddu ein gweledigaeth ar gyfer AU 'addysg uwch yng Nghymru sy'n gynaliadwy, yn hygyrch ac yn rhagori ar raddfa ryngwladol'
- ✓ gwella llesiant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru;
- ✓ sicrhau y ceir gwared â chamdriniaeth, aflonyddwch, bwlio a throseddau casineb mewn AU ac yn ein sefydliad;
- ✓ sicrhau bod 'anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn cael y sylw pennaf wrth ddylunio a darparu'r holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'.\*
- ✓ sicrhau bod 'Cymru yn arwain y blaen ym maes cydraddoldeb rhywiol'.\*
- ✓ sicrhau 'bod sector cyhoeddus Cymru yn arwain y blaen fel sefydliadau a chyflogwyr cynhwysol ac amrywiol enghreifftiol'.\*
- ✓ cyflawni blaenoriaethau hirdymor Partneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru.

---

<sup>10</sup>Roedd Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru 2020-2024 ar ffurf ddrafft wrth inni gwblhau ein Cynllun. Nodir \* wrth nodau hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru.

## Ffynonellau data a ddefnyddir gennym i fonitro cynnydd (mae'r rhain yn ddangosol yn hytrach na hollgynhwysol).

- Llywodraeth Cymru, Prifysgolion y DU, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a chyhoeddiadau perthnasol eraill
- [Data HESA](#) (monitro ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig lle bo hynny'n bosibl)
- Data cydraddoldeb ac amrywiaeth cyflogaeth a'r gweithlu ar raddfa sefydliadau
- Data bwloch cyrhaeddiad ar raddfa sefydliadau
- Data STEM ar raddfa sefydliadol a chenedlaethol, ac ar raddfa'r DU
- Data cyflogaeth CCAUC
- Data'r corff llywodraethu sefydliadol
- Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb Sefydliadol ar gyfer y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil
- [Data ystadegol Ymlaen AU](#)
- [Mesurau Cenedlaethol CCAUC](#)
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) Llywodraeth Cymru.

## Y cyd-destun o ran deddfwriaeth a pholisi

Wrth ddatblygu CCS 2020-2024 a'n hamcanion cydraddoldeb rydym wedi ystyried y ddeddfwriaeth a'r polisiau a ganlyn:

[Deddf Cydraddoldeb 2010](#) (y Ddeddf) a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC). Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrf y sector cyhoeddus fel CCAUC. Wrth arfer ei swyddogaethau, mae'n rhaid i gorff cyhoeddus roi sylw digonol i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig honno; a
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig honno.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn cynnwys naw nodwedd warchodedig.<sup>11</sup>

I danategu Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Ebrill 2011) ceir dyletswyddau penodol sydd wedi'u cynnwys yn [Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 \(Dyletswyddau Statudol\) \(Cymru\) 2011](#). Mae SAUau Cymru, a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd cydraddoldeb.

Nod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC) yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at greu cymdeithas decach, drwy hyrwyddo cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau beunyddiol. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn

<sup>11</sup>Oed, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Priodas a Phartneriaeth Sifil, (mewn perthynas â'r gofyniad i roi sylw priodol i'r angen i ddileu gwahaniaethu), Hil, Crefydd a Chred, Rhyw a Chyfeiriadedd Rhywiol.

cael eu hymgorffori yn nyluniad polisïau ac yn narpariaeth gwasanaethau, a bod yr ystyriaethau hynny'n parhau i gael eu hadolygu er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bawb.

### [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

Mae'r Ddeddf yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn annog cyrff cyhoeddus, fel CCAUC, i feddwl mwy am y tymor hir, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'r naill a'r llall, i geisio atal problemau ac i sicrhau ymagweddau mwy 'cydgysylltiedig' at bopeth a wnânt.

Wrth ddatblygu CCS 2020 -2024, mae CCAUC wedi ystyried goblygiadau nodau llesiant y Ddeddf, dulliau o weithio a'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Mae'r [Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\)](#) yn anelu i wella'r trefniadau atal, amddiffyn a chymorth i'r rhai hynny yr effeithir arnynt gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a cham-drin rhywiol, a gwella ymateb y sector cyhoeddus i hynny. Nid yw CCAUC na Sefydliadau Addysg Uwch yn 'awdurdodau perthnasol' o fewn y Ddeddf, ond mae'r Ddeddf yn nodi 'Gall CCAUC gyhoeddi canllawiau i gyrff llywodraethu sefydliadau yng Nghymru o fewn y sector addysg uwch ynghylch sut y gall y cyrff gyfrannu at gyflawni dibenion y Ddeddf hon'.

## Ystyriaethau polisi

- Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) wedi'i seilio ar yr ystyriaethau polisi a ganlyn:
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol [A yw Cymru'n Decach? 2018 \(2018\)](#)
- Llywodraeth Cymru [Llesiant Cymru 2017-18 \(2018\)](#)
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol [Freedom of expression guide for higher education providers and students' unions in England and Wales \(2018\)](#)
- Llywodraeth Cymru, [Cenedl Noddfa - Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches \(2019\)](#)
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol [Tackling racial harassment: Universities challenged \(2019\)](#)
- [Datganiad Polisi CCAUC ynghylch Lles ac Iechyd mewn Addysg Uwch \(2019\)](#)
- Strategaeth Gorfforaethol CCAUC 2016-2020
- Tasgau o lythyr cylch gwaith CCAUC sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb ac amrywiaeth.
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017.

## Sganio'r gorwel

### Wrth weithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, rhoddir ystyriaeth i'r datblygiadau canlynol:

Yn ystod cyfnod strategaeth 2020-2024 bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu ac yn cyhoeddi'r adolygiadau ymchwil a ganlyn:

- Comisiynu ymchwil i archwilio opsiynau ehangach, gan gynnwys sut y gallent ymgorffori confensiynau'r Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys y confensiwn ar hawliau pobl anabl, yng nghyfraith Cymru.
- Cynnal adolygiad o reoliadau Dyletswydd Cydraddoldeb 2011 (Cymru) a'r modd y gellid eu cryfhau.
- Adolygiad o'r Dystiolaeth o Anghydraddoldeb yng Nghymru (Llywodraeth Cymru), sydd i fod i gael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2019.
- Adolygiad o'r adroddiad Cam Dau Cydraddoldeb Rhywedd a'r map ffordd ([Chwarae Teg](#)), sydd i'w gyhoeddi erbyn diwedd 2019.